



## **Capel y Tabernacl, Efail Isaf**



Bore Sul Ebrill 24ain 2016

**Llywydd yr Oedfa:** Wendy Reynolds

**Myfyrdod:** Geraint Rees

**Cyfeilydd:** Sian Elin

Y bore 'ma cawn ddathlu bedyddio Llywelyn Teifi Gruffydd. Cynhelir y bedydd gan y Parchg Lona Roberts sydd yn fodryb i Gwenfair, mam Llywelyn.

## **Croeso gan Wendy**

Apêl gan Carys Davies ar ran y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Eryn Agoriadol: Air Disglair Duw

**Darlleniad: Stori am y Pharisead a'r casglwr trethi**

Bedydd Llywelyn Teifi – dan ofal y Parch Lona Roberts

Gair i'r plant gan Wendy

### **Cyd weddio:**

**Wendy:** Y bore 'ma, gadewch i ni ddiolch am fywyd newydd. A hithau'n wanwyn, fe welwn y coed a'r blodau yn blaguro a bloeduo, ac o amgylch y pentre fe welwn yr ŵyn bach yn prancio yn y caeau. A'r bore 'ma, yn y capel fe ddathlwn fedydd Llywelyn bach – gyda cherddoriaeth a chwmniaeth.

**Pawb: Am wyrth bywyd, diolchwn i Dduw. Am ryfeddod y tymhorau, diolchwn. Am haelioni rhyfeddol y fam ddaear, diolchwn.**

Wendy: Meddyliwn y bore hwn am wledydd sy'n cael eu difetha gan ymddygiad annisgwyl natur. Am diroedd sy'n sych dan wres yr haul neu drefi cyfan sydd yn cael eu distrywio gan gorwyntoedd sydd yn ysgubo popeth yn eu ffordd, neu gan lifogydd sy'n difa popeth.

**Pawb: Mewn byd o ddigon, gwyddwn fod grym natur yn rhoi ac yn difetha. Arglwydd, gwna ni'n ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i ofalu am rai sy'n ei chael hi'n anodd, gan gofio wastad pa mor ffodus ydym ni.**

Wendy:

Gwyddom fod hen ddigon i bawb yn ein byd – ond fod pethau'n brin ar rai tra fod eraill ar ben eu digon.

**Pawb:**

**Rho i ni ysbryd rhannu. Gwna ni'n barod i roi cyn cymryd, i ddysgu sut i ofalu am eraill gystal ag y'n ni'n gofalu amdanom ni'n hunain. Agorwn ein calonnau i ffordd Iesu Grist. Amen.**

Cyd adrodd Gweddi'r Arglwydd: Ein Tad

**Emyn y Plant a'r Casgliad: 871 Dyro dy gariad i'n clymu,**

Casglu ac wedyn y plant i'r Ganolfan

**Emyn: Arglwydd mawr y cyfrinachau**

Myfyrdod gan Geraint, gyda Siriol Burford a Steve Preston

**Emyn 791: Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,  
Y Fendith & Duw fo yn fy mhen**

## Huw M (gyda band llawn) & The Gentle Good



**Acapela, Pentyrch  
Nos Wener 29/04/16 7.30pm  
Tocynnau [www.acapela.co.uk](http://www.acapela.co.uk)**

A poster for a theatrical production. At the top, it says 'Cwmni Pendraw yn cyflwyno'. Below that is a detailed illustration of a three-masted sailing ship. Overlaid on the ship is the title 'Mr Bulkeley or Brynddu' in a stylized font. Below the title, it says 'Ffi ddyddiadur', 'Theatr. Hanes. Gwyddoniaeth', and 'gan Wyn Bowen Barrie'. At the bottom of the ship illustration, it says 'Diories, Theatre, History, Science'. The bottom of the poster has a dark blue background with white text: '29/04/16 £10 / £9 7:30PM'. Below that, in smaller text, it says 'Am wybodaeth bellach / For more information', 'Canolfan Gartholwg Centre - 01443 219589', 'www.gartholwg.org llcreception@campwsgartholwg.org.uk', and social media icons for Facebook and Twitter with the handle '@gartholwgllc'.

Y BANC BWYD. Diolch am y gefnogaeth gyson – cedwir y bocsy yn yr ystafell fach sydd tu ôl i'r piano yn y capel.



**Mai 1af**

Helen Prosser a chyfeillion a'r Parch. Gethin Rhys

**Mai 8ed**

Sul Cymorth Cristnogol gyda'r pwyllgor, taflen gan Gwilym ac Eleri Huws, a sgrin gan Huw Rees

CYLCH CADWGAN

Nos Iau 5 Mai 2016 am 8.00pm.

**Y PRIFARDD GERAINT  
LLOYD OWEN**

'Geraint a Gerallt'  
yng Nghlwb Rygbi Pentyrch  
Cydnabyddir cefnogaeth  
Llenyddiaeth Cymru

Os oes gennych gyhoeddiadau:  
[geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com) neu  
07816341527

[www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org)

**Bore Sul 15 Mai am 10.45**

Oedfa Arbennig i'r teulu cyfan i ddathlu ail-agor y Capel, gyda bwffe ac amser yn y parc i ddilyn. Cadwch y dyddiad plis!

Os fydddech yn fodlon bod yn rhan o dîm i gyd-lynnu trefniadau'r bwyd ar gyfer Mai 15 a wnewch chi gasglu yn ein sêd fawr ddychmygol ar ddiwedd oedfa bore 'ma am 5 munud. Diolch.

**Mai 15**

Dathliad cael adeilad bendigedig i'r Tabernacl – gyda Heulyn a Catrin, Criw'r Twmiaid, Parti'r Efail, Côr yr Einion a llawer mwy. Bwyd a parc i ddilyn.

**Mai 22**

Emlyn Davies a Margaret Pritchard Copley

Bydd y Twmiaid yn mynd i Dresaith am y penwythnos Mai 6-8 ac yn cyfrannu at wasanaeth dathlu agor y capel ar y 15eg o Fai.

**Cyfamod Eglwysig y Tabernacl**

“Cymuned o unigolion, sydd wedi cyfamodi i barchu gwahaniaethau ac wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'i gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.”